TATWS GYDA DIBEN

NI YW'R BRAND CYNNYRCH FFRES CARBON NIWTRAL CYNTAF Y DU.

RESPONSIBLY GROWN
ROOT ZERO
CARBON NEUTRAL

GWEITHREDU DROS YR HINSAWDD

Rydym wedi gwrando ar y wyddoniaeth wrth wneud penderfyniadau, sydd wedi ein harwain ar ein taith o niwtraledd carbon i leihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr 51% dros y 9 mlynedd nesaf.

YN ROOT ZERO
EIN NOD YW CAEL EFFAITH
GADARNHAOL AR EIN PLANED
DYNA PAM EIN BOD WEDI
GWEITHREDU
FRWYDRO
DROS NEWID HINSAWDD

EIN NOD
ALLYRIADAU CARBON ISAF POSIBL
GYDA
GWYDDONIAETH
WRTH WRAIDD TARGEDAU

CWMPAS 1
ALLYRIADAU UNIONGYRCHOL YN SGIL GWEITHREDIADAU

CWMPAS 2
LLYRIADAU ANUNIONGYRCHOL YN SGIL TRYDAN WEDI'I BRYNU

CWMPAS 3
YR HOLL ALLYRIADAU ERAILL SYDD YNGHLWM Â GWEITHGAREDDAU CWMNI

ALLYRIADAU YN ÔL CAM CADWYN GWERTH:
Cyfanswm allyriadau: 0.53 $kgCO_2e/kg$





ÔL-TROED CARBON FESUL KG O DATWS

*DAW'R HOLL OSTYNGIADAU O FLWYDDYN SYLFAEN, NID BLWYDDYN AR ÔL BLWYDDYN

#TATWSYSTYRIOLORBLANED

WEDI'U TYFU'N GYFRIFOL

Mae bioamrywiaeth yn sail i'n gallu i ffynnu ar y ddaear

BRAS MELYN
Erbyn heddiw, prin yw'r boblogaeth yn Sir Benfro, ac rydym wedi gweithredu mesurau er mwyn ei diogelu. Rydym yn plannu cnwd ãr ('cymysgedd o hadau adar') ac fe greodd hyn gynefin yn ogystal â bod yn fwyd naturiol i'r adar hyn.

PEILLWYR
Rydym yn cefnogi Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn gyda'u gwaith hanfodol ar gyfer y Gardwenynen Feinlais, rhywogaeth â blaenoriaeth sy'n arwyddocaol i gynnal bioamrywiaeth dan Adran 7 (Deddf yr Amgylchedd [Cymru] 2016).

Proudly supporting Bumblebee Conservation Trust

TYLLUANOD GWYNION
Mae gostyngiad yn niferoedd Tylluanod Gwynion yn rhybudd bod rhywbeth o'i le yn yr amgylchedd ehangach. Ein nod yw cefnogi'r boblogaeth sydd gennym ar draws y sir gan osod blychau Tylluanod Gwynion yn ofalus ar ein ffermydd **ROOT ZERO** a phlannu cnydau gorchudd glaswelltir cymysg er mwyn iddynt fwydo.

PROSIECTAU ROOT ZERO

COETIR BIOAMRYWIOL ROOT ZERO: Rydym yn creu **coetir 30+ erw** (sy'n gyfwerth â 22 cae pêl-droed maint llawn), wedi'i blannu yng nghalon ein Sir Benfro annwyl ni.



CNYDAU GORCHUDD:
Rhwng 2022 – 2030 a thu hwnt, byddwn yn plannu o leiaf **445 erw o gnydau gorchudd bob blwyddyn** ar ein ffermydd **ROOT ZERO**. Bydd y cnydau gorchudd hyn yn atafaelu 97,900 kgCO2 e bob blwyddyn!!

BYDD EIN PROSIECTAU ROOT TO ZERO YN LLYWIO EIN TAITH BARHAUS O RAN LLEIHAU AGWAREDU ALLYRIADAU NWYON TŶ GWYDR

MORWELLT: Byddwn yn gweithio ar brosiect ar raddfa fawr i adfer morwellt er mwyn helpu i **gasglu carbon deuocsid** o'r atmosffer.

TECHNOLEG YNNI ADNEWYDDADWY:
Rydym wedi gosod nod uchelgeisiol i ni ein hunain, sef gosod **panelau solar** yn ein cyfleuster cynhyrchu yn Sir Benfro, sy'n golygu y byddwn yn dibynnu'n llwyr ar ynni adnewyddadwy o 2023.

TRAFNIDIAETH EFFEITHLON O RAN YNNI:
Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid logisteg ar strategaeth drafnidiaeth a fydd yn defnyddio bio-nwy, gyda'r nod o drosglwyddo i drydan pan fydd y dechnoleg yn caniatáu hynny. Mae 50% o geir, faniau a thryciau agored ein cwmni eisoes yn defnyddio technoleg hybrid a thros y 10 mlynedd nesaf ein nod yw cynyddu'r ffigwr hwn i 100%.

PERTHI:
Nid yn unig y mae eu gwreiddiau dwfn yn helpu i **gasglu carbon deuocsid**, maent hefyd yn creu **cynefinoedd hollbwysig** i nifer o rywogaethau o anifeiliaid ac yn darparu rhwystr ffisegol naturiol sy'n arafu llif dŵr glaw. Mae gennym werth **110 milltir o berthi** ar ein ffermydd **ROOT ZERO** ac rydym yn eu gadael i **dyfu'n rhydd**, gan eu torri fymryn yn ystod y gaeaf bob 3 blynedd.

Cliciwch yma i ddarllen y Maniffesto:

Gallwn oresgyn her yr argyfwng hinsawdd, "Fel nad oes rhaid i ni symud i'r blaned Fawrth," (Diolch, Franny, 10 oed)

PIONEERING PACKAGING